| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Medi 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler, Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Archwiliad Adnoddau Dynol Strategol - Diweddariad** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu manylion gwaith diweddaraf yr adain Archwilio Mewnol yn AD Strategol i'r Pwyllgor, yn dilyn yr adroddiad cychwynnol ym mis Awst 2012 a'r adroddiadau dilynol blaenorol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ni gynnal adolygiad pellach o AD Strategol i asesu cynnydd y gwelliannau o fewn y gwasanaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Y Pwyllgor i ystyried a rhoi sylwadau ar yr adroddiad Archwilio Mewnol.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Cynhaliwyd adolygiad o AD Strategol, gan gyflwyno adroddiad ym mis Awst 2012 gyda gradd sicrwydd 'isel' ac amlygu nifer o faterion lle'r oedd angen gwelliannau.

Yn ogystal â hyn, yn ystod 2012, cynhaliwyd nifer o adolygiadau proses o swyddogaethau yr oedd AD Strategol yn eu darparu, a'r canlyniad oedd datblygu cynllun gwella ar gyfer 2013/14 i uno'r holl gamau gweithredu o'r ddau ddarn o waith.

Gofynnodd Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor i ni ailymweld â'r gwasanaeth i roi sicrwydd bod Cynllun gweithredu'r Adain Archwilio Mewnol wedi'i weithredu'n llawn a bod cynllun gwella'r gwasanaeth wedi'i gyflawni.

Mae Atodiad 1 yn darparu manylion ein hadroddiad diweddaraf, sy'n dangos y gwnaed cynnydd sylweddol, a'r canlyniad yw gradd sicrwydd o 'Ganolig'. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ymrwymiad staff AD Strategol i wneud y prosiect yn llwyddiant ac ein hyder yn y gwasanaeth i gyflawni cynnydd pellach.

## Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 5. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 6. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.

Nid oes angen penderfyniad neu gynnig ar gyfer newid ar gyfer yr adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Amherthnasol - adroddiad gwybodaeth yn unig

## 8. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol - adroddiad gwybodaeth yn unig

## 9. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Amherthnasol - adroddiad gwybodaeth yn unig

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Amherthnasol - adroddiad gwybodaeth yn unig